# Y Pwyllgor Deisebau

## Cofnodion : PET(3) 01-10

**Dyddiad: Dydd Mawrth 19 Ionawr 2010**
**Amser: 09.15 - 10.43**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau’r Cynulliad yn bresennol

Val Lloyd AC, Dwyrain Abertawe (Cadeirydd dros dro)
Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru
Mike German AC, Dwyrain De Cymru
Bethan Jenkins AC, Gorllewin De Cymru

### Swyddogion

Naomi Stocks, Clerc
Andrew Minnis, Dirprwy Glerc
Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol

### Cyflwynwyr

Jerry Langford, Cyfarwyddwr, Coed Cadw (prif ddeisebwr)
Anna Heslop, Swyddog Ymgyrchu, Coed Cadw (prif ddeisebwr)

### 1. Ethol Cadeirydd dros dro

Etholodd y Pwyllgor Val Lloyd fel Cadeirydd dros dro.

### 2. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau gan Christine Chapman. Dirprwyodd Val Lloyd ar ei rhan.

### 3. Sesiwn dystiolaeth: P-03-234 Mae ar Gymru angen mwy o goed brodorol

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Jerry Langford ac Anna Heslop, cynrychiolwyr Coed Cadw.

### 4. Ystyried y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a roddwyd gan y prif ddeisebwyr.

### Camau gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ystyried y materion a godwyd gan Coed Cadw fel sail i’r cwestiynau a ofynnir i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru

Gofyn am fwy o wybodaeth gan yr Adran Materion Gwledig cyn i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru roi tystiolaeth i weld a wnaeth adolygiad yr adran o fiwrocratiaeth mewn prosiectau cymorth i amaethyddiaeth ddwyn unrhyw gasgliadau sy’n berthnasol i fentrau coedwigaeth, ac yn enwedig 'Coetiroedd Gwell i Gymru’

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes i ofyn am ei farn am gyfraniad menter Ysgol Goedwig Cymru i amcanion y ddeiseb

Ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol i ofyn a yw’r Pwyllgor wedi ystyried y materion sy’n ymwneud â biwrocratiaeth yn y broses o weinyddu cyllid amaethyddol yr Undeb Ewropeaidd.

Ysgrifennu at Gomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd yn gofyn am gopi o adroddiad drafft yr is-grwp defnydd tir a newid yn yr hinsawdd

### 5. Deisebau newydd

### (i) P-03-247 Achub cartref Hedd Wyn

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

### Camau gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Aros am ymateb gan y Gweinidog dros Dreftadaeth

Ysgrifennu at Cadw i ganfod a yw'r adeilad eisoes wedi'i restru

Nodi unrhyw faterion sy'n debyg i'r rhai a ystyriwyd wrth drafod y ddeiseb i achub tafarn y Vulcan.

### (ii) P-03-261 Atebion lleol i dagfeydd traffig yn y Drenewydd

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

### Cam gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Aros am ymateb gan y Dirprwy Brif Weinidog

Ysgrifennu at y Pwyllgor Menter a Dysgu i ofyn am ei farn am y materion a godwyd yn y ddeiseb

### (iii) P-03-264 Helpwch i atal y dirywiad ofnadwy mewn bywyd gwyllt a chynefinoedd

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

### Camau gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Aros am ymateb gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

Ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn am eu barn am y datganiad gan y Gweinidog ar fioamrywiaeth

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Faterion Gwledig i ofyn am ei barn am y ddeiseb.

### (iv) P-03-267 Cynllun gweithredu i Gymru ynghylch hepatitis feirysol a gludir yn y gwaed

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

### Camau gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Aros am ymateb gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### (v) P-03-270 Gweithredu dros blant

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

### Camau gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Aros am ymateb gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

Ystyried a yw'r adroddiad ar y cyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar wasanaethau i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd meddwl ac anghenion emosiynol yn cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r ddeiseb hon

Nodi'r prif hyfforddwyr yng Nghymru ac ymchwilio i'r hyfforddiant y maent yn ei ddarparu.

### (vi) P-03-271 Ardrethi busnes yn Arberth

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

### Camau gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Aros am ymateb gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Ymchwilio i weld a yw'r mater wedi cael ei drafod gan y Pwyllgor Menter a Dysgu.

### (vii) P-03-273 Cludo tyrbinau gwynt yng nghanolbarth Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

### Camau gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Aros am ymateb gan y Dirprwy Brif Weinidog

Ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i ofyn am ei barn am y ddeiseb

Ymchwilio i weld a yw'r Pwyllgor Cynaliadwyedd wedi archwilio'r mater.

## 6. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### (i) P-03-100 Cyffordd Tesco

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

### Cam gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y deisebwr i'w hysbysu ynglŷn ag ymateb y Dirprwy Brif Weinidog a bwriad y Pwyllgor i gau'r ddeiseb

Paratoi adroddiad crynhoi i gau'r ddeiseb

### (ii) P-03-124 Cysgliad

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

### Cam gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at Fwrdd yr Iaith Gymraeg i ofyn a yw'n bosibl cynnal trafodaethau pellach gyda Chanolfan Bedwyr ynglŷn â chyllid, neu a yw mewn sefyllfa i gynnig pecyn amgen.

### (iii) P-03-150 Safonau canser cenedlaethol

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

### Cam gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn iddi gyflwyno manylion canfyddiadau'r Grŵp Cydgysylltu Gwasanaethau Canser i'r Pwyllgor, yn ogystal â chrynodeb o'r cynnydd a wnaed gan y GIG ers mis Ebrill, a manylion y camau gweithredu y mae'n cynnig eu rhoi ar waith i ymateb i'r materion a nodwyd.

### (iv) P-03-153 Celf corff

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

### Cam gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am eglurhad pellach ynglŷn â phryd yn union y bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cyflwyno ei adroddiad, ac i ofyn am fanylion y canfyddiadau hynny.

### P-03-156 Dal anadl wrth gysgu

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

### Cam gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am fanylion y gwaith datblygu pellach sydd angen ei wneud ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol a manylion yr amserlen ar gyfer gwneud y gwaith hwn.

### (vi) P-03-162 Diogelwch ar y ffyrdd yn Llansbyddyd

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

#### Camau gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog:

I dynnu ei sylw at yr ymrwymiad yn ei lythyrau dyddiedig 5 Chwefror a 7 Ebrill 2009 i gynnal adolygiad o ddiogelwch ar y ffyrdd yn Llansbyddyd ym mlwyddyn ariannol 2009/10 unwaith y cyhoeddwyd y canllawiau ar derfynau cyflymder ac i ofyn a yw canlyniadau'r adolygiad hwn ar gael ac, os nad ydynt, beth sydd wedi arwain at yr oedi hwn.

I ofyn, yn sgil y llythyr a anfonodd ar 15 Rhagfyr 2009, a'r ymrwymiadau blaenorol i adolygu diogelwch, pa feini prawf a ddefnyddir ar gyfer rhoi blaenoriaeth i'r cefnffyrdd fydd yn cael eu hadolygu, pryd y bydd y penderfyniad ynglŷn gwelliannau i'r ffyrdd yn Llansbyddyd yn cael ei wneud, pa mor fuan y bydd y gwaith yn dechrau, ac a fydd yr adnoddau ariannol ar gael os bydd y galw'n cael ei nodi.

### (vii) P-03-181 Anemia dinistriol

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

#### Cam gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y deisebwr i ofyn iddo roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd o ran trwyddedu Methylcobalamin.

### (viii) P-03-182 Arian Ewropeaidd

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

#### Cam gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Dysgu i ofyn iddo hysbysu'r deisebwr ynglŷn â chylch gorchwyl ymchwiliad y Pwyllgor i ddefnyddio cyllid strwythurol ac i hysbysu'r Pwyllgor Deisebau ynglŷn â chynnydd yr ymchwiliad.

### (ix) P-03-207 Cymorth i'r di-waith ym Mynwy

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

#### Camau gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Ganolfan Byd Gwaith i'w hysbysu ynglŷn ag ymateb y deisebwr, sy'n amlygu effaith gadarnhaol y gwaith a wnaed eisoes, ac yn gofyn i Fynwy gael ei hystyried ar gyfer gwasanaethau wyneb-yn-wyneb os bydd yr adnoddau ar gael

Ysgrifennu at y deisebwr i'w hysbysu bod y Pwyllgor wedi cysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith, gan bwysleisio bod hwn yn fater heb ei ddatganoli, ond yn gofyn iddi hysbysu'r Pwyllgor ynglŷn ag unrhyw rwystrau sylweddol eraill y mae'n bosibl y gall y Pwyllgor gynorthwyo â hwy.

### (x) P-03-221 Gwell triniaeth traed drwy'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

#### Cam gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn iddi hysbysu'r Pwyllgor ynglŷn â chynnydd yr ymarfer cwmpasu a hefyd i ofyn pryd y disgwylir i'r ymarfer ymgynghori ehangach, a gynhelir ar ôl yr ymarfer cwmpasu, gael ei gwblhau.

Ysgrifennu at y deisebwyr i'w hysbysu ynglŷn â'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y ddeiseb.

### (xi) P-03-227 Ffordd fynediad yn Llanmaes

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

### Cam gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn am ei farn am y materion a godwyd yn llythyr y deisebwr.

## (xii) P-03-238/241 Llygredd ym Mornant Porth Tywyn / Llanelli Star - Achubwch ein carthffosydd

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

### Cam gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn gofyn iddi ddarparu canfyddiadau allweddol yr adroddiad interim ar yr achosion o gocos marw ac yn gofyn am wybodaeth bellach am gynllun Dŵr Cymru Welsh Water i ddarparu capasiti a lleoedd storio ychwanegol ar gyfer carthion storm.

Ysgrifennu at y deisebwyr i'w hysbysu ynglŷn â chanfyddiadau'r Pwyllgor ac i ofyn am eu barn.

## (xiii) P-03-243 Tynnu'n ôl yn ffurfiol o'r strategaeth is-ranbarthol gorllewin Caer / gogledd-ddwyrain Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

### Cam gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Gwahodd Llywodraeth Cymru i roi tystiolaeth

Ysgrifennu at y deisebwyr i'w hysbysu ynglŷn â bwriad y Pwyllgor i gymryd tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru.

## (xiv) P-03-244 Cofrestr prosiectau bro a phrosiectau cymuned ar gyfer awdurdodau lleol

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

### Cam gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ofyn am fwy o wybodaeth ynglŷn â sut y cyhoeddir gwybodaeth am gynlluniau diogelwch ar y ffyrdd a pha welliannau y gellid eu gwneud i helpu preswylwyr lleol i ganfod mwy am y cynlluniau hyn.

## (xv) P-03-246 Cael gwared ar y terfyn cyflymder o 50mya ar yr M4 ger Casnewydd

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

### Cam gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at Traffig Cymru i ofyn a oes ganddynt wybodaeth am sut y mae'r cyfyngiadau traffig ar yr M4 wedi effeithio ar yr amseroedd teithio cyfartalog rhwng cyffordd 24 a chyffordd 28

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn y canlynol:

Pryd y bydd y cyfyngiadau'n dod i ben

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith mai cyfyngiadau dros dro ydynt, gan gynnwys defnyddio arwyddion ar y ffordd

A oes modd cael eglurhad pellach ynglŷn â sut y bydd y terfyn cyflymder newidiol yn gweithio, gan gynnwys cadarnhad mai'r cyflymder rhagosodedig fydd 70 mya, a fydd yn cael ei ostwng yn ystod amseroedd brig, neu a fydd cyflymder rhagosodedig is yn cael ei ddefnyddio.

Ysgrifennu at y deisebwr unwaith y bydd ymateb y Dirprwy Brif Weinidog yn dod i law i ofyn am ei farn.

## (xvi) P-03-254 Sylwadau trydydd parti mewn cyfarfodydd cynllunio

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

### Camau gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ofyn faint o awdurdodau cynllunio lleol sy'n rhoi'r cyfle i drydydd parti siarad yng nghyfarfodydd cynllunio awdurdodau lleol a pham bod cymaint o amrywiaeth

Ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn gofyn a wnaiff hi ystyried cyhoeddi canllawiau ar y mater ar gyfer awdurdodau lleol, oherwydd yr amrywiaeth hwnnw

Comisiynu adroddiad gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau ar sut yr ymdrinnir â'r mater hwn yn rhannau eraill y DU.

### (xvii) P-03-262 Academi Heddwch Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

### Camau gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Gwahodd y prif ddeisebwr i roi tystiolaeth

Gwahodd y Sefydliad Heddwch Ffleminaidd, y Sefydliad Catalanaidd Rhyngwladol dros Heddwch, a'r Sefydliad Ymchwil Heddwch, Frankfurt i roi tystiolaeth

### 7. Ethol Cadeirydd parhaol newydd

Etholwyd Christine Chapman yn Gadeirydd newydd ar y Pwyllgor.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Ionawr 2010**